# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 7 Hydref 2019

Amser: 13.15 - 15.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5625

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Gareth Bennett AC<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Adam Price AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Tystion: | Gawain Evans, Llywodraeth Cymru<br>Peter Kennedy, Llywodraeth Cymru<br>Shan Morgan, Llywodraeth Cymru<br>David Richards, Llywodraeth Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Adrian Crompton - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Alison Butler<br>Mike Usher |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Lowri Barrance (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Joanne McCarthy (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Ystyriodd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru a'i nodi, gan gytuno i ofyn am wybodaeth gynhwysfawr am y cynnydd a wneir yn erbyn yr argymhellion ym mis Gorffennaf 2020.

### 2.1 Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru - Craffu cyffredinol ar gyfrifon

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Shan Morgan - Ysgrifennydd Parhaol, Gawain Evans - Cyfarwyddwr Cyllid, Peter Kennedy - Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, a David Richards - Cyfarwyddwr Moeseg a Llywodraethu, Llywodraeth Cymru ar y craffu ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2018-19.

2.2 Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai'n:

- Anfon nodyn ynghylch gallu Cyfarwyddwyr Anweithredol Llywodraeth Cymru i ymgymryd â rolau sy'n ychwanegol at eu amodau cytunedig;
- Hysbysu'r Pwyllgor o daliadau ychwanegol a wnaed i Gyfarwyddwyr Anweithredol ym mlwyddyn ariannol 2018-19;
- Darparu mwy o wybodaeth am fenthyciadau a buddsoddiadau a ddyfarnwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19; ac
- Anfon nodyn ar y tanwariant a ddigwyddodd yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Craffu ar Gyfrifon: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth a ddaeth i law.